CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# THEMA: Teithio Llesol

## CEFNDIR

*Teithio Llesol*
*Mae teithio llesol yn disgrifio cerdded a beicio yn bwrpasol i gyrraedd cyrchfan, neu deithio ar gludiant cyhoeddus. Mae cerdded a beicio yn weithgareddau iach ac yn cael eu hannog.*

*Fel rhan o ofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae gofyn i Gyngor Sir y Fflint ddarparu Map Rhwydwaith Teithio Llesol gweithredol sy'n ymateb i awgrymiadau cymunedol am deithio llesol.*
*Dyma'r map https://mapdata.llyw.cymru/maps/active-travel-network-maps/view?center=-3.315437400423601,53.20554627458074&zoom=5#/*

*Mae'r dolenni yn yr adran isod yn hyrwyddo adnoddau sy'n eich helpu i archwilio Teithio Llesol gyda'ch plentyn. Fe allech chi roi cynnig ar ddilyn llwybr gwahanol i'r ysgol neu ddod o hyd i deithiau cerdded lleol.*

LINKS

## DOLENNI

***Hawliau Tramwy Cyhoeddus***

*Mae pob hawl tramwy cyhoeddus yn briffyrdd yn ôl y gyfraith, sef llwybr wedi'i ddiffinio y mae gan y cyhoedd hawl i deithio arno dro ar ôl tro. Mae yna 1056.2km o hawliau tramwy cyhoeddus yn Sir y Fflint.*
*Mae'n dangos sut rydym ni'n datblygu'r rhwydwaith angenrheidiol i alluogi pobl i ddewis teithio'n llesol yn lleol. I ddysgu mwy am y gwahanol fathau o hawliau tramwy, ewch i Hawliau Tramwy Cyhoeddus. I weld lle mae'r hawliau tramwy ar hyd a lled Sir y Fflint, ewch i Archwilio'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar ein map rhyngweithiol*
***Gweithgaredd:** Fe allech chi edrych ar yr adnodd hwn gyda'ch plentyn neu berson ifanc a chwilio am lwybrau o amgylch eich cymuned y gallech chi eu cerdded a'u harchwilio.*

***Cod Ymddygiad Cefn Gwlad:** Cyngor i ymwelwyr â chefn gwlad*
*Er mwyn cefnogi chwarae yn yr awyr agored sy'n cynnwys teithio llesol, mae'n bwysig ein bod yn dilyn y Cod Ymddygiad Cefn Gwlad. Dyma'r canllawiau i chi eu dilyn i fwynhau parciau a chyrsiau dŵr, yr arfordir a chefn gwlad.*

***Teithiau Cerdded sy'n cael eu Hyrwyddo yn Sir y Fflint***
*Mae Tîm Mynediad Cefn Gwlad Sir y Fflint wedi bod wrthi'n llunio amrywiaeth o deithiau cerdded i hyrwyddo Iechyd a Lles, sydd rhwng 1 a 2 filltir o hyd ac yn cymryd llai nac awr i'w cerdded.*
*https://www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Walking-and-Cycling/Walking.aspx*

***Archwilio Lleoliadau Awyr Agored ar Hyd a Lled Gogledd Cymru***
*I'ch helpu i chwarae ac archwilio allan yn yr awyr agored fel teulu a gyda ffrindiau, ewch draw i wefan Lles Gogledd Cymru*

***Cerdded a beicio yn Sir y Fflint – dewch i ddweud eich dweud***
*Mae'r map rhyngweithiol hwn o Sir y Fflint yn cynnig ffordd i chi ychwanegu eich llais a helpu gwella llwybrau cerdded/beicio yn eich cymdogaeth. Dywedwch wrthym ni am y pethau pwysig yr hoffech chi i bobl wybod amdanyn nhw, yn dda ac yn ddrwg. Bydd pob sylw a wneir yn ein helpu i lywio cynlluniau i wneud gwelliannau yn y dyfodol i'r rhwydwaith cerdded a beicio yn yr aneddiadau sydd wedi'u diffinio yn Sir y Fflint.*
*Mae Cymru yn unigryw yn y ffaith fod ganddi ddeddf, sef Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol ymgynghori â phobl am welliannau i lwybrau cerdded a beicio er dibenion teithio. Darllenwch fwy am y prosiect ac yna ewch i gael golwg ar y map i gael dweud eich dweud. Dweud eich dweud*